MENTRAU IAITH

Y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol


Maniffesto'r Mentrau Iaith ar gyfer etholiad Senedd Cymru 2021



Rhagair

Bwriad y ddogfen hon yw gosod ein galwadau i bleidiau gwleidyddol eu hystyried wrth arwain tuag at etholiad Senedd Cymru 2021. Rydym yn gosod ein safbwyntiau am y Gymraeg, y gymuned a'r economi leol gan gynnwys ystadegau diweddar gan rwydwaith y Mentrau Iaith. Gallwch ddarllen yma hefyd ambell enghraifft o brosiectau cymunedol a masnachol y Mentrau Iaith sy'n cyfrannu tuag at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, i greu cymunedau ffyniannus ac i ddatblygu'r economi leol.

Mae 2020 wedi bod yn flwyddyn heriol gyda Covid19 yn effeithio pob rhan o fywyd, o'r Gymraeg, i gymunedau a'r economi. Felly mae angen, yn fwy nag erioed, sicrhau buddsoddiad a chefnogaeth ddigonol er mwyn gwarchod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.



Lowri Jones,
Cadeirydd, Mentrau Iaith Cymru

Ein galwadau – yn gryno

- **Y Gymraeg**
  - Buddsoddi i ddatblygu'r Gymraeg yn y byd technoleg digidol
  - Datganoli darlledu
  - Sicrhau bod modd manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg a chefnogaeth i rieni
  - Cael gwared ar rwystrau rhag dysgu'r Gymraeg
  - Addysgu athrawon am hanes Cymru a hanes lleol
  - Cyngor gyrfa gyda chyfarwyddyd penodol am y Gymraeg
  - Cynyddu prentisiaethau drwy'r Gymraeg
  - Sicrhau fod canran penodol o lefydd ar gyrsiau gradd ym Mhrifysgolion Cymru i siaradwyr Cymraeg
  - Ymestyn Safonau'r Gymraeg

- **Y Gymuned**
  - Asesiadau effaith iaith annibynnol a di duedd ynghylch unrhyw ddatblygiadau newydd
  - Grymoedd i awdurdodau lleol allu rheoli'r farchnad dai
  - Deddfu i warchod enwau Cymraeg
  - Adrannau Llywodraeth Cymru i ddeall eu cyfrifoldeb ynghlwm â Deddf Llesiant cenedlaethau'r Dyfodol i ymwneud â'r Gymraeg mewn cynlluniau
  - Cydweithio gyda mudiadau fel y Mentrau Iaith wrth gynllunio rhaglenni, megis rhai Trechu Tlodi

- **Yr Economi leol**
  - Creu rhwydwaith o Swyddogion Mentrau Cymdeithasol i sefydlu gweithleoedd cyfrwng Cymraeg
  - Parhau i gynnal rolau Swyddogion Helo Blod lleol trwy gyswllt y Mentrau Iaith lleol
  - Cynllunio a chydlynu'r angen am y Gymraeg mewn swyddi a'r byd addysg
  - Cynyddu isafswm grant y Mentrau Iaith i £100,000 y flwyddyn a chwyddiant

Y Gymraeg

Mae'r Gymraeg i bawb, ar lawr gwlad a'n ddigidol

Mae'r Mentrau Iaith yn ganolog i weithredu Strategaeth Cymraeg 2050. Mae'n hynod bwysig bod sefydliadau llawr gwlad megis y Mentrau Iaith a sefydliadau eraill fel yr Urdd, Merched y Wawr a chlybiau Ffermwyr Ifanc yn gallu cynnig cyfleoedd i unigolion o bob oed i allu defnyddio'r iaith y tu hwnt i gyfundrefn addysg a bod modd i rieni fanteisio ar gefnogaeth i drosglwyddo'r iaith yn y cartref.

Drwy wahanol weithgareddau a digwyddiadau gyda phobl o bob oed a sefyllfa bywyd, rydym yn rhoi'r cyfle i bobl ddefnyddio'r iaith a rhannu gwybodaeth o sefyllfa'r iaith a'i chysylltiad gyda hanes, diwylliant a threftadaeth Cymru. Er hyn, mae'n amlwg nad oes dealltwriaeth digonol gan y Cymry o hanes eu gwlad, eu treftadaeth leol na chyd-destun i stori'r iaith Gymraeg trwy'r canrifoedd. Er mwyn cefnogi gwaith mudiadau fel y Mentrau Iaith mae'n rhaid gofalu bod y Gymraeg yn amlwg mewn elfennau eraill o fywyd cymdeithasol, megis yn y byd digidol ac yn y cyfryngau.

Ein galwadau

- **Technoleg a'r Cyfryngau**
  - Buddsoddi i ddatblygu'r Gymraeg yn y byd technoleg digidol, drwy feddalwedd a gweithgareddau, a gofalu ei bod yn fwy gweladwy ac yn cyrraedd cynulleidfa ehangach
  - Datganoli darlledu i gyfrifoldeb y Senedd er mwyn sicrhau gwell llwyfan i'r Gymraeg yn y cyfryngau

- **Addysg**
  - Sicrhau bod modd i bawb fanteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg o fewn pellter rhesymol a bod cefnogaeth ddigonol i rieni/gwarchodwyr
  - Cael gwared ar unrhyw rwystrau rhag dysgu'r Gymraeg
  - Sefydlu fframwaith i addysgu athrawon i ddysgu hanes Cymru a hanes leol o safbwynt Cymreig fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn gwella ymwybyddiaeth plant o'u treftadaeth
  - Cyngor gyrfa sy'n cynnwys cyfarwyddyd penodol am y Gymraeg
  - Cynyddu prentisiaethau drwy'r Gymraeg
  - Sicrhau caiff canran penodol o lefydd ar gyrsiau gradd (megis meddygaeth, nyrsio ac addysg) mewn prifysgolion yng Nghymru eu pennu i bobl sy'n gallu siarad Cymraeg


- **Safonau**
  - Ymestyn Safonau'r Gymraeg i sectorau eraill er mwyn ehangu'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg

O brofiad: Y Gymraeg yn ddigidol

Bu gallu'r mudiadau Cymraeg i addasu'n gyflym yn ystod y flwyddyn diwethaf i gynnig yr un gefnogaeth yn ddigidol yn syfrdanol. Yn 2020 cafodd pob elfen o fywyd ei effeithio gan Covid-19 ac amlygodd bwysigrwydd technoleg a'r cyfryngau i fywydau pobl o bob oed. Mae'r data isod yn dangos y nifer o weithgareddau digidol i ymwneud â'r Gymraeg bu i'r Mentrau Iaith yn unig eu cynnal rhwng Ebrill a Medi 2020. Mae'r Mentrau Iaith wedi llwyddo i ymwneud â chynulleidfa fwy nag erioed o'r blaen gan godi ymwybyddiaeth o weithgarwch Cymraeg gall bobl gymryd rhan ynddo o gartref. Hyn oll heb golli'r cyffyrddiad lleol a'r cyswllt sydd gan weithwyr y Mentrau Iaith gyda'u cymunedau gan ddarparu gweithgareddau sy'n adlewyrchu diddordebau, hunaniaeth a thafodiaith yr ardal.

Mae'r niferoedd yn gadarnhaol ond rhaid oedd cynnal y gweithgarwch digidol yn lle gwaith mewn cymunedau oherwydd y cyfyngiadau. Os ydym am weld parhad yn y gweithgarwch digidol yma i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd, yn ogystal â pharhau gyda gweithgarwch wyneb yn wyneb sy'n angenrheidiol ar lawr gwlad, yna mae angen buddsoddi ymhellach.

Gweithgarwch digidol y Mentrau Iaith, Ebrill – Medi 2020



Y Gymuned

Y gallu i ddiwallu anghenion lleol

Gan ystyried mai un o amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yw 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' mae'n bwysig gofalu caiff y Gymraeg ei dwyn i ystyriaeth ynghlwm ag unrhyw ddatblygiad cenedlaethol a lleol.
Fel rhwydwaith o fudiadau gwirfoddol sydd wedi ffurfio a'u gwreiddio yn lleol, mae'r Mentrau Iaith yn falch o allu diwallu anghenion eu cymunedau. Yn wahanol i sefydliadau eraill, cryfder y rhwydwaith yw ein hamrywiaeth wrth wynebu proffiliau iaith cyferbyniol o ardal i ardal.

Er mwyn sicrhau bod cymunedau sy'n draddodiadol a naturiol Gymraeg yn parhau i fodoli, mae'r Mentrau Iaith yn gweithio gydag unigolion brwdfrydig i arwain pwyllgorau Gweithredu'n Lleol. Er hyn, gyda diffyg tai fforddiadwy mewn rhai ardaloedd mae'r to ifanc yn gadael ardaloedd gwledig sy'n draddodiadol Gymraeg. Mae hyn yn achosi i broffil ieithyddol pentrefi a threfi bychain cefn gwlad newid.

Yn ogystal ag amrywiaeth ieithyddol mae amrywiaethau economaidd, gyda thlodi dirfawr mewn rhai ardaloedd. Er bod cynlluniau ac ymgyrchoedd trechu tlodi ar waith mewn nifer o ardaloedd, anaml y caiff y Gymraeg ei hystyried fel rhan ganolog o'r cynlluniau hyn. O'r herwydd, mae Cymru'n di-freintio'n dinasyddion tlotaf o gysylltiad gyda'n hiaith, yn ogystal â diwylliant a threftadaeth sydd ynghlwm â'r iaith, ac felly'n cyfyngu cyfleoedd i fanteisio ar swyddi yn y dyfodol. Felly, dylid sicrhau cydweithio fel rhan o'r cynlluniau trechu tlodi i sicrhau bod ymwneud â'r Gymraeg hefyd yn rhan ganolog o raglenni'r dyfodol.

O brofiad: adlewyrchu proffil ieithyddol ein hardaloedd

Mae siaradwyr Cymraeg ym mhob cwr o Gymru. Er hyn, mae'r raddfa'n amrywiol, ac fe gaiff hyn ei adlewyrchu yng ngwaith y Mentrau Iaith lleol. Drwy gynhyrchu proffiliau iaith o'u hardaloedd mae dealltwriaeth gref gan y Mentrau Iaith o'u cymunedau a'u cynulleidfaoedd. Mae hyn yn amlwg ym mhrosiectau amrywiol y Mentrau Iaith o ardal i ardal. Mae modd i Fentrau Iaith yng Ngorllewin Cymru gydweithio gyda chymunedau sy'n parhau i weithredu yn Gymraeg, ond mae'n sefyllfa wahanol mewn ardaloedd eraill.

Un prosiect sydd wedi ei sefydlu yn siroedd Y Fflint, Wrecsam a Dinbych yw Cymunedau Dwyieithog. Diben y prosiect yw gweithio gyda grwpiau cymunedol sydd eisoes yn bodoli a dylanwadu arnynt i ddatblygu gweithgarwch Cymraeg yn eu hardaloedd. Mae gofyn hefyd i'r grwpiau cymunedol ystyried y Gymraeg fel rhan o unrhyw ddatblygiadau newydd er mwyn adlewyrchu dwyieithrwydd eu cymunedau.

Ein galwadau

- **Cynllunio**
  - Addasu Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fel bod rhaid i asesiadau effaith iaith gael eu cynnal gan aseswyr annibynnol a di duedd ar gyfer unrhyw ddatblygiad, preifat a chyhoeddus, i sicrhau dibynadwyedd yr asesiadau hynny. Teimlwn mai swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ddylai fod yn gyfrifol am fonitro'r prosesau, ond yn amlwg bydd angen mwy o adnoddau arnynt i wneud hyn.
  - Rhoi grymoedd i awdurdodau lleol reoli'r farchnad dai yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau cartrefi i bobl leol a lleihau'r canran o ail-gartrefi
  - Deddfu i warchod enwau Cymraeg

- **Deddf Llesiant y Dyfodol a Threchu Tlodi**
  - Galw ar Lywodraeth Cymru i gydweithio gyda'r mudiadau Cymraeg wrth gynllunio rhaglenni Trechu Tlodi yn Genedlaethol
  - Sicrhau bod holl adrannau Llywodraeth Cymru yn deall eu cyfrifoldeb ynghlwm â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried y Gymraeg fel rhan o'u gwaith a'u buddsoddiadau

Yr Economi Leol

Creu gwaith a chadw'r bunt yn lleol

Fel rhan o Thema 3 Strategaeth Cymraeg 2050 mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd seilwaith a chyd-destun er mwyn sicrhau gwaith i bobl leol allu defnyddio eu Cymraeg o ddydd i ddydd a chyfrannu i greu cymunedau ffyniannus. Ymysg prosiectau masnachol y bu i'r Mentrau Iaith eu sefydlu mae caffis, siopau, canolfannau, cynlluniau hyfforddiant swyddi, cwmnïau cyfieithu, meithrinfeydd a chynlluniau gofal plant – gwasanaethau sydd yn cyfrannu tuag at economi sylfaenol cymunedau Cymru.

Drwy fentergarwch, bu i'r Mentrau Iaith lleol ddenu bron £4.5 miliwn o gyllid ar ben grantiau'r Llywodraeth yn 2019/20 i'w cymunedau gan lwyddo i ennill grantiau, gweithio gyda phartneriaid, neu gynnal cynlluniau masnachol. Mae'r graffiau isod yn dangos mae canran eithaf bychan, llai na traean, o swyddi'r Mentrau Iaith ariennir gan Lywodraeth Cymru. Drwy ddenu arian o ffynonellau eraill mae'r Mentrau Iaith wedi gallu creu 254 swydd yn ychwanegol i'r swyddi sy'n cael eu hariannu gan grant Llywodraeth Cymru a phrosiectau cenedlaethol. Wrth ail-fuddsoddi elw mewn i brosiectau cymunedol mae'r Mentrau Iaith yn cyfrannu tuag at y farchnad lafur Gymraeg, yn rhoi cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ym myd gwaith a lleihau allfudiad pobl ifanc o gymunedau gwledig i drefi a dinasoedd.

Ein galwadau

- **Marchnad Lafur**
  - Creu rhwydwaith o Swyddogion Mentrau Cymdeithasol i sefydlu gweithleoedd cyfrwng Cymraeg i bobl leol, wedi ariannu gan adran yr Economi.
  - Ers 2017, mae'r Mentrau Iaith yn cynnal elfen lleol y prosiect Helo Blod er mwyn rhoi cyngor a chefnogaeth ar ddefnyddio'r Gymraeg i fusnesau bychain. Mae'n bwysig bod yr elfen hon o'r prosiect yn parhau er mwyn rhoi'r cyswllt lleol i fusnesau a chyngor wyneb yn wyneb iddynt.
  - Gwell cynllunio a chydlynu ynghylch yr angen am y Gymraeg mewn swyddi a'r byd addysg. Ni fydd modd cyflawni strategaethau megis "Cymraeg 2050" a "Mwy na geiriau", na gweithredu'r Safonau, os na chaiff gweithlu ei chynllunio a'i chreu

- **Buddsoddi**
  - Ers cyhoeddi'r strategaeth yn 2017 nid yw'r Mentrau Iaith wedi gweld buddsoddiad ychwanegol er mwyn mynd ati i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn yn effeithiol a chynnig cyflog teg i weithwyr sy'n adlewyrchu chwyddiant mae'r Mentrau Iaith yn gofyn i gynyddu isafswm grant pob Menter Iaith i £100,000 y flwyddyn, a chwyddiant i'r Mentrau Iaith hynny sydd eisoes yn derbyn £100,000 neu fwy. Bydd hyn yn galluogi i bob Menter Iaith gyflogi 3 aelod staff a rhedeg cwmni neu elusen ffyniannus sy'n manteisio ar fuddsoddiadau a chreu swyddi pellach.


O brofiad: llenwi'r bwlch Cymraeg

Un o gynlluniau sy'n cynhyrchu'r mwyaf o swyddi cyfrwng Cymraeg gan y rhwydwaith yw'r cynlluniau gofal plant yn Ne Ddwyrain Cymru. Caiff y cynlluniau gan saith Menter Iaith yn y rhanbarth eu hariannu'n rhannol gan awdurdodau lleol ond maen nhw hefyd yn brosiectau masnachol sy'n cynhyrchu refeniw. Mae'r refeniw hwn yn cael ei ail-fuddsoddi i gynnig mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ardaloedd mwyaf Saesnig y wlad.

Mae Menter Iaith, neu gwmni hyd braich i Fenter Iaith yn cyflogi dros 150 o unigolion, a hynny yn y sector gofal plant yn unig. Gyda chyfuniad o glybiau brecwast, gofal cofleidiol, clybiau ar ôl ysgol a chlybiau gwyliau, mae'r Mentrau Iaith wedi adnabod a bodloni gwir angen am ofal plant cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau.


Trosolwg staffio y Mentrau Iaith 2019-20

Mae'r Mentrau Iaith yn denu arian i greu 254 swydd yn ychwanegol i'r swyddi a ariennir gan Lywodraeth Cymru, 72% o weithlu'r rhwydwaith.



Trosolwg cyllid y Mentrau Iaith 2019/20

Cyfanswm grant 'Hybu a Hyrwyddo defnydd y Gymraeg' Llywodraeth Cymru i rwydwaith y Mentrau Iaith o'i gymharu gyda chyfanswm trosiant y rhwydwaith ar gyfer 2019-20.





www.mentrauiaith.cymru

post@mentrauiaith.cymru

01492 643401